Ken Skates AC
Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

**15 Mehefin 2015**

**Gwaith etifeddiaeth y Pwyllgor: cais am ddiweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion y Pwyllgor yn eich portffolio**

Annwyl Weinidog

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno yn ddiweddar i gynnal adolygiad o'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

Fel rhan o'r gwaith etifeddiaeth hwn, byddwn yn edrych yn ôl ar ein hymchwiliadau i bolisi â'r bwriad o asesu effeithiau'r casgliadau a'r argymhellion a geir yn ein hadroddiadau amrywiol.

I gynorthwyo gyda'r gwaith hwn, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn ein hadroddiadau sy'n berthnasol i'ch portffolio, sef:

– Llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru;

– Lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon;

– Polisi amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru;

– Cyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru;


– Uwch Gynghrair Cymru;

– Rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 24 Gorffennaf.

Yn dilyn hyn, hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i roi tystiolaeth lafar yn gynnar yn nhymor yr hydref er mwyn helpu i lywio ein gwaith etifeddiaeth. Rwyf wedi gofyn i'r Clerc gysylltu â'ch swyddfa i wneud y trefniadau ymarferol.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**
**Cadeirydd**